CYNGOR IECHYD CYMUNED
COMMUNITY HEALTH COUNCIL

EIN HEGWYDDORION YMWELD

Byddwn yn:

- gwrando ar lais y claf, defnyddwyr gwasanaethau a'r rheiny sy'n gofalu a hidio amdanynt
- gweld drosom ein hunain sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu
- canolbwyntio ein hymweliadau ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau GIG, neu'n cael eu heffeithio ganddynt
- ymdrin â'n hymweliadau o safbwynt gwirioneddol leyg
- cyfeirio unrhyw bryderon clinigol at eraill i ymchwilio iddynt
- cynllunio a blaenoriaethu ein hymweliadau, er mwyn cael gwybod mwy am y gwasanaethau rydym yn pryderu amdanynt, neu nad ydym yn gwybod digon amdanynt
- canolbwyntio ar yr hyn sy'n dda, yn ogystal â'r hyn sydd angen ei wella
- adlewyrchu'r hyn mae pobl yn dweud wrthym yn ein hatborth a'n hadroddiadau
- hysbysebu a chynnal ymweliadau lle rhoddwyd rhybudd, er mwyn rhoi'r cyfle ehangaf i bobl ddweud wrthym am eu profiadau

- cynnal ymweliadau dirybudd, er mwyn cael cipolwg iawn ar wasanaethau

- cymryd camau yn dilyn ein hymweliadau, i weld a yw arfer da wedi cael ei rannu ac a oes gwelliannau wedi cael eu gwneud, lle'r oedd eu hangen

Ni fyddwn yn:

- cynnal arolygon, archwiliadau neu wiriadau cydymffurfio sy'n groes i ofynion neu safonau cyhoeddedig corff proffesiynol neu gorff arall[1]

- ymweld ag ardaloedd lle nad yw cleifion yn mynd iddynt

Ebrill 2019

[1] Bydd ein gweithgareddau ymweld, fodd bynnag, yn rhoi arwydd o'r effaith mae unrhyw ofynion o'r fath yn ei gael ar brofiad pobl o gael mynediad at wasanaethau GIG